**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Papur ymchwil

# Papur Briffio ar gyfer y Cyfarfod Llawn: Dadl ar Adroddiad 03-13 y Pwyllgor Safonau i'r Cynulliad ar Lobïo a Grwpiau Trawsbleidiol

Mehefin 2013

Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn: www.cynulliadcymru.org/research

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Research.Service@wales.gov.uk
Twitter: @YmchwilCCC

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 13/1453
Rhif dogfen:13 /046

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Papur ymchwil

# Papur Briffio ar gyfer y Cyfarfod Llawn: Dadl ar Adroddiad 03-13 y Pwyllgor Safonau i'r Cynulliad ar Lobïo a Grwpiau Trawsbleidiol

Mehefin 2013

Alys Thomas

Papur briffio i ategu dadl yn y Cyfarfod Llawn ar Adroddiad 03-13 gan y Pwyllgor Safonau i'r Cynulliad ar Lobïo a Grwpiau Trawsbleidiol.

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Y Gwasanaeth
Ymchwil

Cynnwys


**1. Cyflwyniad** ..... 1

**2. Adroddiad y Pwyllgor Safonau** ..... 2

**3. Y Cyd-destun Datganoledig** ..... 5

**4. Cynigion Llywodraeth y DU** ..... 7

**5. Adroddiad y Pwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol** ..... 9

**6. Datblygiadau ym mis Mehefin 2013** ..... 12

**7. Rheolau newydd ar gyfer Grwpiau Trawsbleidiol a Chanllawiau ar Lobïo.** ..... **15**

7.1. Canllawiau ar Lobïo a Hygyrchedd i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ..... 15

7.2. Rheolau Grwpiau Trawsbleidiol ..... 15

# Papur Briffio ar gyfer y Cyfarfod Llawn: Dadl ar Adroddiad 03-13 gan y Pwyllgor Safonau i'r Cynulliad ar Lobïo a Grwpiau Trawsbleidiol

## 1. Cyflwyniad

Disgwylir i'r ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar **Adroddiad 03-13 y Pwyllgor Safonau i'r Cynulliad ar Lobïo a Grwpiau Trawsbleidiol**[1] gael ei chynnal ar 26 Mehefin 2013. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 2 Mai 2013 ac ni welodd y Pwyllgor Safonau ("y Pwyllgor") unrhyw dystiolaeth bod angen symud tuag at ddeddfu ar gyfer system gofrestru statudol i lobïwyr ar hyn o bryd. **Gwahoddir y Cynulliad i gymeradwyo rheolau newydd, mwy cadarn ar gyfer y ffordd y mae Grwpiau Trawsbleidiol yn gweithredu, a chanllawiau cyffredinol i Aelodau ar eu cysylltiad â lobïwyr**.

Ers hynny mae dadl wedi codi yn San Steffan yn ymwneud â thri arglwydd ac Aelod Seneddol yr honnir iddynt dderbyn cynigion o arian yn gyfnewid am wasanaethau seneddol gan newyddiadurwyr cudd a oedd yn esgus bod yn lobïwyr. Mae achos arall sy'n honni ymddygiad amhriodol gan AS mewn perthynas â lobïo. Mae hyn wedi ysgogi'r Dirprwy Brif Weinidog, y Gwir Anrhydeddus Nick Clegg AS, i gyhoeddi bwriad Llywodraeth y DU i fwrw ymlaen â deddfwriaeth i alluogi'r etholwyr i alw Aelodau Seneddol yn ôl ynghyd â sefydlu cofrestr statudol o lobïwyr cyn diwedd y senedd hon yn 2015.

Mae papur ymgynghori gwreiddiol Llywodraeth y DU ar gofrestr statudol i lobïwyr yn cyfeirio at Gofrestr y DU o Lobïwyr ond mae'n aneglur sut y byddai hyn yn cael effaith ar ddeddfwrfeydd datganoledig a lobïwyr sy'n gweithredu yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mewn llythyr at Ysgrifennydd Gwladol Cymru at y pryd, y Gwir Anrhydeddus Cheryl Gillan AS, nododd y Llywydd mai mater i'r Cynulliad ei hun yw rheoleiddio lobïo yng Nghymru. Mae'r Papur Briffio hwn ar gyfer y Cyfarfod Llawn yn rhoi gwybodaeth gefndir i'r Aelodau.

[1] Y Pwyllgor Safonau, Adroddiad 03-13 i'r Cynulliad ar *Lobïo a Grwpiau Trawsbleidiol* [fel ar 5 Mehefin 2013]

## 2. Adroddiad y Pwyllgor Safonau

Cylch gorchwyl ymchwiliad y Pwyllgor Safonau oedd:

- asesu a yw trefniadau presennol y Cynulliad ynghylch lobïo yn ddigon cadarn ac addas i'r diben ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad;
- gwneud argymhellion i'r Llywydd, Comisiwn y Cynulliad ac/neu'r Pwyllgor Busnes am unrhyw fesurau pellach, naill ai mesurau deddfwriaethol neu anneddfwriaethol, y dylid eu hystyried i reoleiddio gweithgareddau lobïo mewn perthynas ag Aelodau Cynulliad unigol;
- cynghori'r Llywydd am ganfyddiadau'r Pwyllgor mewn perthynas â'r trefniadau presennol sy'n rheoli dull grwpiau trawsbleidiol o weithio.

Rhoddodd ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar gyflwyno cofrestr statudol o lobïwyr gyd-destun ar gyfer yr ymchwiliad. Trafodir y cynnydd ar hyn yn llawn yn adran 4.[2]

Cynhaliodd y Comisiynydd Safonau ("y Comisiynydd"), Gerard Elias QC, ymgynghoriad cynhwysfawr a chyflwynodd adroddiad i'r Pwyllgor yn hydref 2012 ynghylch a oedd y trefniadau presennol yn ddigon cadarn.

Wrth gynnal ei asesiad, dywedodd y Comisiynydd ei fod wedi ystyried y pwyntiau canlynol:

- mai barn unfryd pawb a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad sy'n gweithredu yng Nghymru a/neu yn y Cynulliad Cenedlaethol yw bod arferion lobïo, yn eu hanfod, yn dryloyw a'u bod yn cael eu plismona a'u rheoleiddio'n ddigonol;
- bod y Rheolau Sefydlog yn darparu ar gyfer Cofrestru a Datgan "*rhoddion, lletygarwch, buddion materol neu fantais faterol*" o unrhyw fath i'r Aelod, partner yr Aelod neu blentyn dibynnol i'r Aelod, ac ar lefel (tua £279) sylweddol is na Seneddau eraill yn y Deyrnas Unedig, heblaw am un, ac yn uwch, ond yn unol â'r lefel yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon;
- bod Rheol Sefydlog 2 Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn benodol yn gwahardd lobïo am dâl neu gydnabyddiaeth (Rheol Sefydlog 2.8) ac yn darparu ar gyfer yr hawl i wahardd Aelod os bydd yn torri'r rheolau (Rheolau Sefydlog 2.10 a 2.11);
- nad oes cwyn yn ymwneud â lobïo wedi'i gwneud yn erbyn Aelod mewn blynyddoedd diweddar – neu, cyn belled ag y gwyddai'r Comisiynydd, ers sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol;
- bod y gyfraith droseddol yn darparu ar gyfer derbyn, neu roi, rhoddion neu lwgrwobrwyon gan, neu i, bobl mewn swyddi cyhoeddus mewn modd amhriodol.[3]

---

[2] Y Pwyllgor Safonau, Adroddiad 03-13 i'r Cynulliad ar Lobïo a Grwpiau Trawsbleidiol, Mai 2013 [fel ar 11 Mehefin 2013]

Daeth y Comisiynydd i'r casgliad ei fod:

> yn gadarn o'r farn bod y trefniadau presennol sydd yn eu lle ar gyfer rheoleiddio lobïo, fel y maent yn berthnasol i Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol, yn eu hanfod yn ddigon cadarn ac addas i'r diben.[4]

Ym mis Ionawr 2013, ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, Mick Antoniw AC, at y Llywydd:

> Wrth ddod i'w gasgliad, cydnabu'r Comisiynydd yr angen i ddiwylliant 'agored' y Cynulliad barhau, gan sicrhau ei bod yn parhau'n hawdd cysylltu â'r Aelodau, er mwyn peidio â llesteirio'r broses ddemocrataidd; yr angen i sicrhau bod yr hyn sy'n dylanwadu ar ein cynrychiolwyr etholedig yn parhau'n dryloyw yng ngolwg y cyhoedd, y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a phartïon eraill sydd â diddordeb; a'r angen i sicrhau cymesuredd, o ran defnyddio adnoddau a'r baich a roddir ar yr Aelodau a'r lobïwyr i ddatrys unrhyw broblem a ganfyddir yn y maes hwn.
>
> Mae'r Pwyllgor a'r Comisiynydd hefyd yn nodi na ddylem laesu dwylo, a bod angen sicrhau y bydd y rheolau sydd ar waith yn parhau'n ddigon cadarn yn y dyfodol - yn enwedig o gofio'r pwerau deddfu ychwanegol a roddwyd i'r Cynulliad, a chanlyniad Comisiwn Silk, gan gynnwys y posibilrwydd y bydd gennym bwerau benthyca arian a / neu godi trethi yn y dyfodol.
>
> O gofio hyn, mae'r Pwyllgor am gynnal rhywfaint o waith ychwanegol i atgyfnerthu'r trefniadau presennol. Mae hyn yn cynnwys ceisio cryfhau'r rheolau'n ymwneud â Grwpiau Trawsbleidiol yn y Cynulliad, a chynnal rhagor o drafodaethau gyda'r diwydiant materion cyhoeddus, gan gynnwys Public Affairs Cymru fel prif gynrychiolydd y diwydiant yng Nghymru. [5]

---

[3] Y Pwyllgor Safonau, Adroddiad 03-13 i'r Cynulliad ar Lobïo a Grwpiau Trawsbleidiol, Mai 2013 [fel ar 11 Mehefin 2013]
[4] Y Pwyllgor Safonau, Adroddiad 03-13 i'r Cynulliad ar Lobïo a Grwpiau Trawsbleidiol, Mai 2013 [fel ar 11 Mehefin 2013]
[5] Llythyr oddi wrth Mick Antoniw AC, Cadeirydd Pwyllgor Safonau i Rosemary Butler AC, Llywydd, 21 Ionawr 2013 [fel ar 13 Mehefin 2013]

Gwnaeth y Pwyllgor hefyd argymhellion yn ymwneud â lobïo a Grwpiau Trawsbleidiol:

- Argymhellodd y Pwyllgor fod **canllawiau ar lobïo a mynediad at Aelodau yn cael eu mabwysiadu drwy benderfyniad gan y Cynulliad**.
- Gwahoddodd y Pwyllgor **Brif Weinidog Cymru** i ystyried canfyddiadau ac argymhellion y Pwyllgor mewn perthynas â **gweithgarwch lobïo a Gweinidogion Cymru**.
- Argymhellodd y Pwyllgor y dylid amnewid y canllawiau presennol ar y ffordd y mae grwpiau trawsbleidiol yn gweithredu am **reolau llymach a fyddai'n cael eu hategu gan y Cynulliad cyfan**. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r rheolau gynnwys gofyniad i gyhoeddi **cofnodion** yr holl gyfarfodydd; cynnal **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**; a chyhoeddi datganiad ariannol blynyddol sy'n nodi'r holl dreuliau, buddion a lletygarwch a gafwyd, ac i restru'r darparwr/darparwyr, yn ogystal â nodi unrhyw lobïwyr proffesiynol neu sefydliadau elusennol y maent wedi cyfarfod â hwy yn ystod y flwyddyn flaenorol. Dylid cyhoeddi'r holl wybodaeth ofynnol gyda'i gilydd ar dudalennau'r grwpiau trawsbleidiol ar wefan y Cynulliad.
- Argymhellodd y Pwyllgor y dylai grwpiau trawsbleidiol **barhau i fod y tu allan i gwmpas y Rheolau Sefydlog** ac y dylid eu gweld fel rhywbeth sydd ar wahân i fusnes ffurfiol y Cynulliad.
- Argymhellodd y Pwyllgor fod rheolau newydd ar weithrediad grwpiau trawsbleidiol yn pwysleisio mai **cyfrifoldeb Cadeiryddion grwpiau trawsbleidiol**, fel aelodau etholedig, yw cydymffurfio â'r rheolau hynny
- Argymhellodd y Pwyllgor fod unrhyw reolau newydd ar gyfer grwpiau trawsbleidiol yn rhoi ystyriaeth i **ddyletswyddau cydraddoldeb** y Cynulliad mewn perthynas â darparu mannau cyfarfod ac adnoddau at ddibenion **mynediad i bobl anabl**.
- Argymhellodd y Pwyllgor fod Comisiwn y Cynulliad yn nodi goblygiadau'r rheolau newydd ar yr agweddau hynny ar weithgarwch grwpiau trawsbleidiol y gellir eu **hariannu o gronfeydd canolog Comisiwn y Cynulliad**.
- Argymhellodd y Pwyllgor y dylid **adolygu trefniadau'r Cynulliad mewn perthynas â lobïo a grwpiau trawsbleidiol eto cyn diwedd y Pedwerydd Cynulliad**, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau yn addas i'r diben yng nghyd-destun proses ddatganoli ddynamig.[6]

---

[6] Y Pwyllgor Safonau, Adroddiad 03-13 i'r Cynulliad ar Lobïo a Grwpiau Trawsbleidiol, Mai 2013 [fel ar 11 Mehefin 2013]

## 3. Y Cyd-destun Datganoledig

Ym mis Ionawr 2012, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad ar ei chynigion am gofrestr statudol o lobïwyr (ceir rhagor o wybodaeth am yr ymgynghoriad yn Adran 4 y papur hwn). Mae'r papur ymgynghori'n trafod Cofrestr Statudol y DU ar gyfer Lobïwyr a nododd y bydd Llywodraeth y DU bellach yn cynnal trafodaethau gyda'r bwriad o gynnwys y Gweinyddiaethau a'r Deddfwrfeydd Datganoledig o fewn cwmpas cofrestr statudol.[7]

Ar 15 Mawrth 2012, ysgrifennodd y Llywydd, ar ran y Cynulliad, at y Gwir Anrhydeddus Cheryl Gillan AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd, yn datgan:

> In my view the Assembly should be responsible for making any decisions on further governance arrangements […]
>
> We already have in place, in Wales, robust measures to govern the relationships Members have with outside organisations, but we must never be complacent. I believe that the Assembly's Committee on Standards of Conduct is likely to want to consider whether any further safeguards are needed, in conjunction with the Assembly's Commissioner for Standards, and, if so, whether these would require legislation.[8]

Ym mis Mawrth 2013, nododd ymateb ymgynghori Llywodraeth y DU i Ran II ymchwiliad Comisiwn Silk ar ddatganoli yng Nghymru:

> Lobbying plays an important role in the policy making process, ensuring that Ministers and senior officials hear a full range of views from those who will be affected by Government decisions, but it must be conducted in a transparent and open way.
>
> The UK Government has made a clear commitment to increasing the transparency of what we do - making it easier for the public to hold politicians and public bodies to account. This has already resulted in the publication of details of ministerial meetings, Government procurement and a number of other items of public interest. Some in the Assembly have called on the Welsh Government to publish details of its meetings with lobbyists similar to that published by the UK Government.
>
> We received a large response to our consultation on *Introducing a Statutory Register of Lobbyists* last year, which we are currently considering. As part of the policy development process, we are examining the scope of the register, including potential application in the Devolved Administrations.[9]

---

[7] **Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU, *Introducing a Statutory Register of Lobbyists: A Consultation,* CM8233, Ionawr 2012 [fel ar 10 Mehefin 2013]**

[8] Dyfynnwyd yn **Adroddiad 03-13 y Pwyllgor Safonau i'r Cynulliad ar Lobïo a Grwpiau Trawsbleidiol, Mai 2013 [fel ar 11 Mehefin 2013]**

[9] **Llywodraeth y DU, Evidence to Part II of the Silk Commission [fel ar 11 Mehefin 2013]**

Yn Senedd yr Alban, mae Cynnig am Fil Aelod, a fyddai'n cyflwyno cofrestr o lobïwyr yn yr Alban, yn aros i gael ei gyflwyno, yn dilyn proses ymgynghori a ddaeth i ben ddechrau mis Mai.[10] Fodd bynnag, ar 13 Mehefin 2013, datganodd Llywodraeth yr Alban y byddai'n cyflwyno ei deddfwriaeth ei hun cyn etholiadau seneddol yr Alban yn 2016[11].

Yng Ngogledd Iwerddon, mae Alastair Ross MLA, Cadeirydd Pwyllgor Safonau a Breintiau Cynulliad Gogledd Iwerddon wedi dweud:

> This is the second time that the Government at Westminster have proposed such a register, the first time being three years ago. At that stage the Cabinet Office indicated that they would seek to include the devolved regions in any register, but to the best of my knowledge they did not contact the Northern Ireland Executive.
>
> It is important that we keep an open mind on whether we should seek to be included in the Westminster Register of Lobbyists, whether we would prefer to create our own register for Northern Ireland or whether we feel that it would not be a useful tool at all.
>
> The sad reality is that those who show a disregard for the existing rules and regulations will not be deterred by a register of lobbyists, and it is important that we do not create a blunt instrument.
>
> In Northern Ireland we already have strict rules governing advocacy contained in both the Code of Conduct and the Northern Ireland Act, as well as having different rules around the establishment of All Party Groups.[12]

[10] Senedd yr Alban, Bil Arfaethedig ar Dryloywder wrth Lobïo (yr Alban) [fel ar 11 Mehefin 2013]
[11] Gwefan Newyddion y BBC, *Scottish Government plans register of lobbyists*, 13 Mehefin 2013 [fel ar 19 Mehefin 2013]
[12] Datganiad i'r Wasg gan Alisdair Ross MLA, *Ross open minded on proposed Register of Lobbyists*, 4 Mehefin 2013 [fel ar 11 Mehefin 2013]

## 4. Cynigion Llywodraeth y DU

Ymrwymodd Llywodraeth y DU i gyflwyno **cofrestr statudol o lobïwyr** fel rhan o *Coalition: Programme for Government*.[13] Ym mis Ionawr 2012 lansiodd ymgynghoriad ar ei chynigion a ddaeth i ben ar 13 Ebrill 2012. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn **Nodyn Safonol Tŷ'r Cyffredin ar lobïo:**

Roedd nod Llywodraeth y DU fel a ganlyn:

> increase the information available about lobbyists without unduly restricting lobbyists' freedom and ability to represent the views of the businesses, groups, charities and other individuals and organisations they represent or to deter members of the public from getting involved in policy making.[14]

Ar 20 Ionawr 2012 lansiodd y Llywodraeth bapur ymgynghori, *Introducing a Statutory Register of Lobbyists*. Dywedodd Ysgrifennydd Seneddol i Swyddfa'r Cabinet ar y pryd, Mark Harper AS:

> We believe the introduction of a statutory register will be an important step towards increasing transparency and rebuilding public trust in politics. Our initial proposals are that any individual or firm who lobbies for a third party for money must put themselves on the register and disclose their clients. We think it is important that the public should be able to see who is lobbying Ministers, and for whom. That is why there is already a requirement that Ministers should publish details of who they are meeting, at least quarterly. We believe it is right that lobbying companies should disclose who is paying them to lobby Government. We suggest that individuals or companies lobbying for themselves should not be covered by a register because the disclosure requirements on Ministers will show this activity already. We hope for a wide range of responses on all our proposals, but we are particularly interested to hear views on whether organisations like NGOs and charities, which do not lobby for others for money but are advancing agendas, should be covered. We are also consulting as to how, if at all, trade union activities should be covered.
>
> The Government are clear that it is not our intention to propose that individuals taking up issues with Ministers, or companies discussing matters of mutual interest with Government should be covered by the requirement to register. These are vital democratic functions and covered by the disclosure requirement on Government Departments. We are interested in views on whether our definitions meet this objective.
>
> Any proposals for a statutory register should not impinge on the ability of charities to lobby or on a constituent's ability to lobby their own MP.
>
> This is a complicated area, and we are hoping for a wide range of consultation responses to help us produce proposals which are proportionate and practical.[15]

---

[13] **Llywodraeth y DU, *The Coalition: Our programme for government*, Mai 2010** [fel ar 10 Mehefin 2013]
[14] **Swyddfa Cabinet y DU, *Introducing a Statutory Register of Lobbyists: A Consultation*, CM8233, Ionawr 2012 [fel ar 10 Mehefin 2013]**
[15] **Dadleuon Tŷ'r Cyffredin 20 Ionawr 2012, c47WS** [fel ar 12 Mehefin 2013]

Ym mis Gorffennaf 2012, cyhoeddodd Llywodraeth y DU grynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, gan nodi'r camau nesaf o ran datblygu'r polisi.[16] Nododd y Cyflwyniad y bydd cynigion polisi diwygiedig yn cael eu cyhoeddi ar ffurf Papur Gwyn a Bil drafft yn ystod y sesiwn hon o'r Senedd. Ailadroddodd Llywodraeth y DU ei hymrwymiad i gyflwyno cofrestr statudol, ond heb gyfyngu'n ormodol ar ryddid a gallu lobïwyr i gynrychioli barn y grwpiau y maent yn eu cynrychioli, nac atal y cyhoedd rhag cymryd rhan mewn gwaith llunio polisi.[17]

Nododd y crynodeb o'r ymatebion y cafwyd 260 o ymatebion gan randdeiliaid a atebodd gwestiynau'r ymgynghoriad. Croesawodd mwyafrif yr ymatebwyr y nod o sicrhau mwy o dryloywder ac roeddent yn cefnogi sefydlu cofrestr statudol. Fodd bynnag, cafwyd rhywfaint o bryderon ynghylch y diffiniad arfaethedig o lobïwyr fel rhai trydydd parti yn unig, ac ynghylch cwmpas y gofrestr i eithrio elusennau neu gyrff anllywodraethol rhag hyrwyddo agendâu heb gael eu talu gan gleientiaid penodol:

> The overarching theme that emerged was that the proposed definition was narrow and it was also stressed by a number of respondents that until the definition is clear, it would be difficult to determine other factors raised by the subsequent questions, especially scope.
>
> In keeping with the emerging theme on definitions, the predominant view expressed under the question of scope was that a wider scope was preferred but that this should not result in disproportionate burdens.[18]

---

[16] Crynodeb o Ymatebion i Ddogfen Ymgynghor Swyddfa Cabinet y DU *Introducing a Statutory Register of Lobbyists*, Gorffennaf 2012, Cm 8412 [fel ar 12 Mehefin 2013]
[17] Nodyn Safonol Tŷ'r Cyffredin, *Lobbying: June 2013 update*, SN06660, 7 Mehefin 2013 [fel ar 11 Mehefin 2013]
[18] Crynodeb o Ymatebion i Ddogfen Ymgynghori Swyddfa Cabinet y DU *Introducing a Statutory Register of Lobbyists*, Gorffennaf 2012, Cm 8412 [fel ar 12 Mehefin 2013]

## 5. Adroddiad y Pwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol

Ar 13 Gorffennaf 2012 cyhoeddodd y Pwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol ("Pwyllgor San Steffan") adroddiad o'r enw, *Introducing a statutory register of lobbyists*, sef y broses casglu tystiolaeth a oedd wedi cael ei chynnal ochr yn ochr ag ymgynghoriad Llywodraeth y DU.[19] Argymhellodd Pwyllgor San Steffan **y dylai'r cynnig i sefydlu cofrestr statudol o lobïwyr trydydd parti gael ei ollwng o blaid cofrestr ehangach ar gyfer unrhyw un sy'n lobïo'n broffesiynol mewn rôl gyflogedig, ac y dylai felly gynnwys lobïwyr mewnol.**[20]

Cododd Pwyllgor San Steffan anhawster gyda'r ymgynghoriad, gan iddo fethu, wrth geisio barn ynghylch y diffiniad a'r cwmpas, â diffinio'n union beth yr oedd yn ceisio ei reoleiddio.

Dywedodd mwyafrif y tystion wrth Bwyllgor San Steffan fod diffiniad arfaethedig Llywodraeth y DU, lle y byddai lobïwyr mewnol yn cael eu heithrio, yn rhy gul. Gwrthododd gymeradwyo unrhyw ddiffiniad penodol ei hun, ond anogodd Lywodraeth y DU i ystyried yr holl opsiynau a godwyd yn yr ymatebion, oherwydd y bydd y diffiniad yn allweddol i lwyddiant ac effeithiolrwydd unrhyw gofrestr yn y dyfodol. Argymhellodd,

> that Government clarify whether its definition of lobbying includes lobbying advice, or only direct representation, to avoid confusion regarding who should, and should not register as a lobbyist if it goes ahead with its proposals.[21]

Gwnaeth Pwyllgor San Steffan argymhelliad yn erbyn cofrestr i drydydd partïon yn unig. Gwnaeth hynny ar sail y dystiolaeth a glywodd na fyddai cofrestr wedi'i chyfyngu yn y modd hwn yn hybu'r amcan o egluro ble a phryd y defnyddir dylanwad, o ystyried rôl gymharol fach cyfarfodydd uniongyrchol rhwng gweinidogion a lobïwyr trydydd parti:

> A statutory register would be likely to solve the problem the Government poses, as it would allow the public to see the clients of lobbying firms. However, we question whether a lack of transparency over third party lobbyists in particular is as great a problem as the Government claims. We consider that the current proposals for a statutory register of lobbyists will do nothing to resolve wider public concerns about a lack of transparency around who is meeting whom.[22]

---

[19] Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Ddiwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol, Ail adroddiad 2012-2013, *Introducing a Statutory Register of Lobbyists*, HC153, 13 Gorffennaf 2012 [fel ar 12 Mehefin 2013]

[20] Nodyn Safonol Tŷ'r Cyffredin, *Lobbying: June 2013 update*, SN06660, 7 Mehefin 2013 [fel ar 11 Mehefin 2013]

[21] Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Ddiwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol, Ail adroddiad 2012-2013, *Introducing a Statutory Register of Lobbyists*, HC153, 13 Gorffennaf 2012 [fel ar 12 Mehefin 2013]

[22] Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Ddiwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol. Ail adroddiad 2012-2013, *Introducing a Statutory Register of Lobbyists*, HC153, 13 Gorffennaf 2012 [fel ar 12 Mehefin 2013]

> The consultation paper is lacking in clear intent from the Government, and only limited evidence is put forward to support its proposals. We conclude that a statutory register which includes only third party lobbyists would do little to improve transparency about who is lobbying whom, as these meetings constitute only a small part of the lobbying industry. The Government's proposals only scratch the surface when it comes to tackling public concern about undue access and influence over the policy making process, and they are unlikely to prevent lobbying from becoming the "next big political scandal".
>
> We recommend that the Government scrap its proposals for a statutory register of third party lobbyists. It is our view that the proposals in their current form will do nothing to improve transparency and accountability about lobbying. Imposing a statutory register on a small part of the lobbying industry without requiring registrants to sign up to a code of conduct could paradoxically lead to less regulation of the lobbying industry.

Ystyriodd Pwyllgor San Steffan yr opsiynau o beidio â sefydlu cofrestr, rheoleiddio canolig a system reoledig iawn. Roedd yn teimlo y byddai peidio â chael cofrestr o gwbl yn well na'r dull arfaethedig, ond nid oedd o blaid parhau heb gofrestr.

Ar gyfer rheoleiddio canolig, awgrymodd y cynllun canlynol:

> Option 2 encompasses the Government's proposals for a statutory register of third party lobbyists, including disclosure of client lists, and whether or not the lobbyist is a former Minister or senior official, but includes the following additional features:
>
> - a broadened definition of a lobbyist, to include anyone who lobbies professionally in a paid role (thus in-house lobbyists, trade associations, trade unions, think tanks, campaign groups and charities may be required to register);
> - disclosure of the issues being lobbied on;
> - disclosure of when lobbying services have been provided on a pro bono basis;
> - a statutory code of conduct or a hybrid code of conduct (whereby organisations and individuals must indicate that they have signed up to their industry's relevant code of conduct, so it is clear where complaints can be addressed); and
> - incorporation of published data on whom Ministers are meeting.

Ar gyfer system reoledig iawn, awgrymodd y Pwyllgor y canlynol:

> Option 3 encompasses the Government's proposals, and the features of medium regulation as outlined in option 2, but includes the following additional features:
> a statutory register run by an independent regulatory body either self-funded by subscriptions or funded by Government;
> financial disclosure of both money made as a lobbyist and the amount spent on lobbying activities in bands of £5,000; and
> stiff penalties for breaches of the rules, including large monetary fines, and possible jail sentences.
>
> Option 3 would be considered to be a highly regulated system. Dr Raj Chari told us: "What distinguishes the high-regulated systems from the medium or the low is that there are full spending disclosures given by the lobbyists."

A highly regulated UK system could also include a provision similar to the US 1938 Foreign Agents Registration Act (FARA). The Act requires that all lobbyists working on behalf of foreign governments must declare whom they are working for, how much is being spent on lobbying activity and who is being lobbied.[23]

Roedd rhywfaint o gefnogaeth i ddull yn seiliedig ar ddiffinio gweithgarwch lobïo, yn hytrach na diffinio'r unigolion neu'r grwpiau sy'n lobïwyr, a dadleuodd Pwyllgor San Steffan y byddai hyn yn ffordd haws i'w gwneud yn ofynnol i lobïwyr gofrestru, oherwydd gallai fod yn ofynnol i unrhyw sy'n ymwneud â'r diffiniad o weithgarwch lobïo gofrestru.

Daeth Pwyllgor San Steffan i'r casgliad er y gallai fod yn ddymunol cael cofrestr gynhwysfawr gan ddatgelu gwariant yn llawn, fel o dan y system reoledig iawn, byddai'r rheoleiddiwr y byddai ei angen er mwyn gorfodi'r dull hwn yn rhy ddrud. O ystyried cyflwr yr economi, nid oedd Pwyllgor San Steffan yn argymell y dull hwn. Yn hytrach, dywedodd:

In our view, medium regulation is the most desirable, and most feasible form of a statutory register, and would certainly be an improvement on the register the Government currently proposes. We recommend that Government implement medium regulation as a starting point for a statutory register of lobbyists.[24]

Yn ogystal, argymhellodd Pwyllgor San Steffan gamau gweithredu amrywiol y gallai Llywodraeth y DU eu cymryd i gynyddu tryloywder yn ymwneud â chyfarfodydd gweinidogol, waeth beth yw'r cynnydd o ran sefydlu cofrestr:

We believe that there is much the Government can do immediately to improve transparency around who is lobbying whom, through enhanced disclosure of ministerial meetings. We recommend that the Government:

- publish information about ministerial meetings no more than a month after the month in which the meeting occurred;
- standardize the format of meeting data, with a view to publishing all ministerial and official meetings on one website, rather than on 24 different Government websites;
- improve the level of detail in meeting disclosures, so that the actual topic of a meeting is disclosed, rather than obscure terms like 'general discussion'; and publish, where applicable, the company or charity number of any organisation that meets with Ministers or officials, so that the identity of the organisation can be properly verified.[25]

---

[23] Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Ddiwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol. Ail adroddiad 2012-2013, *Introducing a Statutory Register of Lobbyists*, HC153, 13 Gorffennaf 2012 [fel ar 12 Mehefin 2013]
[24] Pwllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Ddiwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol. Ail adroddiad 2012-2013, *Introducing a Statutory Register of Lobbyists*, HC153, 13 Gorffennaf 2012 [fel ar 12 Mehefin 2013]
[25] Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Ddiwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol. Ail adroddiad 2012-2013, *Introducing a Statutory Register of Lobbyists*, HC153, 13 Gorffennaf 2012 [fel ar 12 Mehefin 2013]

## 6. Datblygiadau ym mis Mehefin 2013

Ar benwythnos cyntaf mis Mehefin 2013, daeth honiadau i'r amlwg fod pedwar aelod seneddol o bosibl wedi torri codau ymddygiad Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi drwy gytuno i weithredu fel eiriolwyr am dâl a/neu ddarparu gwasanaethau megis holi cwestiynau seneddol. Gwnaethpwyd yr honiadau yn un o adroddiadau rhaglen Panorama y BBC, a oedd yn ymchwilio ar y cyd â'r *Daily Telegraph*, am Patrick Mercer AS a'i ymateb i gwmni lobïo ffug a oedd yn esgus cynrychioli buddiannau busnes yn Ffiji. Ar 31 Mai 2013, cyn i'r rhaglen gael ei darlledu, ymddiswyddodd Mr Mercer o'i swydd fel chwip y Ceidwadwyr, cyfeiriodd ei hun at y Comisiynydd Seneddol dros Safonau, a dywedodd ei fod yn cymryd cyngor cyfreithiol.

Yn ôl adroddiad y BBC:

> Panorama said Mr Mercer had been approached by a fake company set up by the programme, in conjunction with the Daily Telegraph.
>
> The fake company, Alistair Andrews Communications, had claimed to lobby on behalf of Fijian business interests for Fiji to be re-admitted to the Commonwealth.
>
> The country's membership was suspended in 2009 amid criticism of its human rights' record and lack of democracy.
>
> A clip of Mr Mercer being filmed undercover has been released by Panorama. It shows the MP meeting with an undercover reporter, who was posing as a representative of the fake company.
>
> Mr Mercer can be heard saying: "I do not charge a great deal of money for these things. I would normally come out at £500 per half day, so £1,000 a day."
>
> The undercover reporter replies: "Ok fine."
>
> Panorama said it had paid Mr Mercer £4,000 for working two days a month at a rate of £2,000 per month, but that the money had yet to be declared to the parliamentary authorities.
>
> In a statement the programme said: "Patrick Mercer MP said he agreed to be a consultant for work he said was outside parliament.
>
> "But he submitted five parliamentary questions, which were all answered, as well as an early day motion – all in relation to Fiji."
>
> [...]
> In a statement, Mr Mercer said: "Panorama are planning to broadcast a programme alleging that I have broken parliamentary rules.

> "I am taking legal advice about these allegations - and I have referred myself to the Parliamentary Commissioner for Standards.
>
> "In the meantime, to save my party embarrassment, I have resigned the Conservative whip and have so informed [Conservative Chief Whip] Sir George Young.
>
> "I have also decided not to stand at the next general election" [26]

Gwnaeth Panorama hefyd honiadau am yr Arglwydd Laird. Yn fuan wedyn, gwnaeth y *Sunday Times* honiadau bod yr Arglwydd Laird a dau arglwydd arall, yr Arglwydd Cunningham o Felling a'r Arglwydd Mackenzie o Framwellgate, wedi gwneud addewidion amhriodol i gwmni ffug arall, un a oedd y tro hwn yn ymwneud ag ynni'r haul. Gwadodd y tri arglwydd unrhyw gamymddwyn. Cafodd yr Arglwydd Cunningham a'r Arglwydd Mackenzie eu diarddel gan y Blaid Lafur, ac ymddiswyddodd yr Arglwydd Laird o fod yn chwip Plaid Unoliaethwyr Ulster nes y bydd canlyniad yr ymchwiliadau wedi'u cyhoeddi. Mae Comisiynydd dros Safonau Tŷ'r Arglwyddi yn ymchwilio i'r tri achos.

Ymddangosodd rhagor o honiadau am Tim Yeo AS ar 9 Mehefin yn y *Sunday Times,* sydd hefyd wedi'u cyfeirio at y Comisiynydd Seneddol dros Safonau.[27] Ildiodd Mr Yeo yr awenau fel Cadeirydd y Pwyllgor Dethol ar Ynni a Newid yn yr Hinsawdd ac yn sgil hyn ysgrifennodd y Llefarydd, John Bercow AS, at gadeirydd y pwyllgor safonau yn San Steffan yn gofyn iddo ystyried a ddylai cadeiryddion pwyllgorau dethol fod ag unrhyw ddiddordebau masnachol allanol.[28]

Gan ysgrifennu yn y *Daily Telegraph*, ymatebodd y Dirprwy Brif Weinidog Nick Clegg i'r honiadau drwy ailbwysleisio ei gefnogaeth i bŵer i alw Aelodau Seneddol yn ôl[29], ac am gofrestr statudol o lobïwyr. Fodd bynnag, pwysleisiodd fod angen i ni fod yn realistig: nid oes dull unigol, hud o warchod rhag gwleidydd unigol sy'n benderfynol o ymddwyn yn anfoesegol neu'n amhriodol.[30] Yn wir, nid yw'n sicr y byddai cofrestr statudol o lobïwyr yn atal y math o ymddygiad a honnwyd yn erbyn Mr Mercer a'r tri arglwydd, oherwydd bod yr honiadau'n ymwneud ag ymddygiad a fyddai'n torri codau presennol beth bynnag.

---

[26] Newyddion y BBC, *MP Patrick Mercer quits Tory whip over Panorama lobbying inquiry*, 31 Mai 2013 [fel ar 11 Mehefin 2013]
[27] Tim Yeo denies claims he offered to advise solar energy lobbyists for cash, *Guardian*, 9 Mehefin 2013 [fel ar 10 Mehefin 2013]
[28] Guardian, *Speaker John Bercow raises concerns over MPs' commercial interests*, 12 Mehefin 2013 [fel ar 13 Mehefin 2013]
[29] Am ragor o wybodaeth am hyn gweler Bil drafft Galw Aelodau Seneddol yn Ôl, 2012 [fel ar 12 Mehefin 2013]
[30] Daily Telegraph, *Cash for access: Clegg pledges new regulation to tackle lobbying*, 2 Mehefin 2013 [fel ar 11 Mehefin 2013]

Cadarnhaodd Llywodraeth y DU y byddai'n cyflwyno deddfwriaeth ar lobïo cyn toriad yr haf. Dywedodd Chloe Smith AS, Ysgrifennydd Seneddol yn Swyddfa'r Cabinet:

> The Government have repeatedly made very clear their commitment to introducing a statutory register of lobbyists. The events that have unfolded over the weekend demonstrate just how important transparency in political life is. We will therefore introduce legislation to provide for a lobbying register before the summer recess. The register will go ahead as part of a broad package of measures to tighten the rules on how third parties can influence our political system.[31]

Mewn ymateb i gwestiwn am y posibilrwydd o gael cyfuniad o fesurau ar lobïo ac ar ariannu gan drydydd partïon mewn deddfwriaeth, atebodd Ms Smith,

> This is about third parties more generally, and it is right to understand how third parties can influence the political process in general. It is something in which the general public will take a great interest.[32]

Yn sgil y datblygiadau hyn, anogodd Cadeirydd Pwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin, Graham Allen AS, Lywodraeth y DU i weithredu ar yr argymhellion yn adroddiad Pwyllgor San Steffan ar lobïo:

> The Political and Constitutional Reform Committee published a report in July 2012 that looked in detail at the Government's proposals for a statutory register of lobbyists. Nearly a year later, the Committee still has not received a response. The events of recent days have demonstrated why it is important that the Government acts on lobbying. But that action must be effective.
>
> The Committee's report found that the Government's proposals would only scratch the surface when it came to tackling public concern about undue access and influence over policy making, and would be unlikely to prevent lobbying from becoming 'the next big political scandal.'
>
> The report concluded that the Government's proposal for a register that included only third-party lobbyists would do little to improve transparency about who is lobbying whom, because meetings involving such lobbyists constitute only a small part of the lobbying industry.
>
> The Committee called on the Government to rethink their proposals, and in particular their definition of what constitutes a lobbyist. I again urge the Government to consider carefully the Committee's recommendations. I look forward to receiving a response from the Government.[33]

---

[31] Dadleuon Tŷ'r Cyffredin Colofn 1363 4 Mehefin 2013 [fel ar 12 Mehefin 2013]
[32] Dadleuon Tŷ'r Cyffredin Casgliad 1364 4 Mehefin 2013 [fel ar 12 Mehefin 2013]
[33] Pwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin, Datganiad i'r Wasg, *Chair urges Government to heed Committee's lobbying report*, 3 Mehefin 2013 [fel ar 12 Mehefin 2013]

## 7. Rheolau newydd ar gyfer Grwpiau Trawsbleidiol a Chanllawiau ar Lobïo.

Gwahoddir y Cynulliad i gymeradwyo rheolau newydd, mwy cadarn ar gyfer y ffordd y mae Grwpiau Trawsbleidiol yn gweithredu, a chanllawiau cyffredinol i Aelodau ar gysylltu â lobïwyr. Os cânt eu cymeradwyo, ni fyddai'r Rheolau newydd ar Grwpiau Trawsbleidiol yn dod i rym tan ddechrau tymor yr hydref, ddydd Llun 23 Medi 2013.

### *7.1. Canllawiau ar Lobïo a Hygyrchedd i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

Argymhellodd y Pwyllgor fod canllawiau ar lobïo (cod ymarfer i Aelodau'r Cynulliad) yn cael eu rhoi i Aelodau o Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar eu cysylltiadau â lobïwyr yn eu hannog i gofnodi cyfarfodydd

### *7.2. Rheolau Grwpiau Trawsbleidiol*

Mae Grwpiau Trawsbleidiol yn darparu fforwm i Aelodau Cynulliad o wahanol bleidiau ystyried diddordebau cyffredin mewn pynciau penodol sy'n berthnasol i'r Cynulliad. Mae'r rheolau newydd yn darparu canllawiau mwy cadarn ar sut y dylai Grwpiau Trawsbleidiol weithredu, ond **ni fyddai** rhai pethau'n newid:

- **Statws:** Nid yw Grwpiau Trawsbleidiol yn grwpiau ffurfiol yn y Cynulliad ac nid ydynt wedi eu rhwymo gan unrhyw rai o Reolau Sefydlog y Cynulliad; nid oes ganddynt rôl ffurfiol ym maes datblygu polisi; nid oes ganddynt unrhyw bwerau fel sydd gan Bwyllgorau'r Cynulliad ac ni allant ddefnyddio logo na brand y Cynulliad.
- **Defnyddio Adnoddau:** Nid yw Grwpiau Trawsbleidiol yn cael blaenoriaeth dros fusnes ffurfiol y Cynulliad a rhaid iddynt barchu'r cyfyngiadau o ran y defnydd o gyfleusterau ac adnoddau'r Cynulliad, fel y nodir yn Adrannau 8-10 o'r rheolau.
- **Atebolrwydd a Chydymffurfiaeth:** Mae'r rheolau newydd yn pwysleisio cyfrifoldeb Cadeiryddion dros sicrhau bod Grwpiau Trawsbleidiol yn cydymffurfio â'r rheolau ar ddefnyddio cyfleusterau ac adnoddau'r Cynulliad; bod yn rhaid i bob hysbysiad, gohebiaeth, dogfennaeth a threfniadau eraill sy'n ymwneud â gweithgareddau Grŵp gael eu cyhoeddi yn enw Cadeirydd y Grŵp; ac yn achos grŵp sy'n penodi Ysgrifennydd nad yw'n Aelod Cynulliad, ni ddylai'r unigolyn hwnnw weithredu heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Cadeirydd. Nid oes hawl gan sefydliadau ac unigolion allanol sy'n gysylltiedig â Grwpiau Trawsbleidiol i ddefnyddio adnoddau'r Cynulliad. Byddai methu â chydymffurfio yn peri i grŵp gael ei ddadgofrestru ar awdurdod y Llywydd, a byddai'r Comisiynydd Safonau a'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad, yn unol â gweithdrefn y Cynulliad, yn ymdrin ag unrhyw gŵyn sy'n ymwneud â safonau

ymddygiad personol Aelod, y defnydd cywir o adnoddau'r Cynulliad a/neu gofrestru diddordebau'n gywir yn unol â Rheol Sefydlog 2.

- **Bod yn Agored ac yn Dryloyw:** mae'r rheolau'n cynnwys rhai gofynion newydd o ran gwybodaeth y dylid ei chyhoeddi ar adran grwpiau trawsbleidiol gwefan y Cynulliad. Rhoddir crynodeb o'r gofynion newydd isod:

| **Cofrestru** | **Erbyn?** |
|---|---|
| Dylai cadeiryddion ailgofrestru Grwpiau Trawsbleidiol presennol, neu gofrestru unrhyw Grŵp Trawsbleidiol newydd drwy ddefnyddio ffurflen gofrestru a ddarperir gan Gomisiwn y Cynulliad. | Bydd ffurflen gofrestru newydd yn cael ei hanfon at gadeiryddion cyn i'r rheolau ddod i rym. Byddai angen i grwpiau ailgofrestru ar ddechrau pob Cynulliad newydd ar ôl yr etholiadau. |
| **Swyddogion etholedig** | |
| Cyn cofrestru grŵp trawsbleidiol, dylai deiliaid swyddi gael eu hethol (o leiaf Gadeirydd ac Ysgrifennydd) a dylid cyhoeddi eu henwau a'u manylion cyswllt. Gellir ethol deiliaid swyddi mewn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol cyntaf neu gyfarfod grŵp cyffredin<br>. | Dylid rhoi manylion y swyddogion etholedig o fewn pedair wythnos o gael eu hethol, gan ddefnyddio'r ffurflen gofrestru. |
| **Cofnodi newidiadau** | |
| Dylid rhoi gwybod am newidiadau i ddeiliaid swyddi. | O fewn pedair wythnos i'r newid, neu drwy ffurflen gofrestru ddiwygiedig. |
| **Cynnal Cyfarfodydd** | |
| Byddai'n ofynnol i grwpiau gynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol). | O fewn 12 mis i gofrestru'r grŵp, ac yna bob blwyddyn. |
| **Cyhoeddi gwybodaeth** | |
| Bydd dyddiadau, amseroedd a lleoliadau cyfarfodydd yn cael eu cyhoeddi. | Dylai cadeiryddion roi cymaint o rybudd â phosibl am gyfarfodydd. |
| **Dylid cyhoeddi cofnodion** o holl gyfarfodydd y Grŵp Trawsbleidiol. | O fewn pedair wythnos i gynnal y cyfarfod (adran 14 o'r rheolau). |
| Dylid cyhoeddi **Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol**. Byddai'r wybodaeth ofynnol fel y nodir yn adrannau 12-13 o'r rheolau. [34] | O fewn chwe wythnos i gynnal y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. |

[34] Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, *Papur Briffio: Lobïo  a Grwpiau Trawsbleidiol Rheolau a Chanllawiau'r Cynulliad*, Mai 2013 [fel ar 13 Mehefin 2013]